

Sut y gall GPC Ar Lein neu Ap GPC eich helpu?

Ydych chi'n astudio'r Gymraeg? Mae GPC yn gallu cynnig pob math o help.

Geiriadur Cymraeg-Cymraeg yw GPC, ond ceir cyfystyron Saesneg hefyd. Mae'n ddelfrydol i astudio geiriau neu ymadroddion Cymraeg penodol, ac i chwilio am eiriau yn y diffiniadau / cyfystyron Saesneg.

Beth yw ystyr *amddias* yng ngwaith Aneirin?

GPC CYM

1/1 amddias (2005)

amddias
[am-²+dias]

a.
?Bloeddfawr, tyrfus:
?boisterous, turbulent.

12g. *GMB* 178, Mab Gruffut greid *amddias*, / Meith dy dreissyeu drac Euas.
13g. *C* 48¹⁴⁻¹⁵. Ami dysgoganafe kad *am dias*.
13g. *A* 1¹⁻². Gredyf gwr oed gwas gwrhwt *am dias*.

Rwyf angen gair arall yn lle *gwyhch* am 'excellent'. Ceir digon o ddewis yn GPC:

GPC SAES

excellent

Canlyniadau: 219

excellent, splendid, beautiful, elegant, pleasant, genial, gentle; honourable, noble, worthy, good, virtuous, honest, true, loyal; suitable, fitting → **addwyn¹**

excellent, strong, or proud in battle, also fig. → **aerfalch**

excellent → **amwiw**

excellent, splendid, outstanding; extreme, strange, inexplicable → **ansbaradigaethus**

excellent, fine → **anwaelaidd**

excellent, splendid, fine, pleasant, content, fair → **braf**

excellent → **campiog**

excellent, splendid, fine → **campusol**

excellent, exceedingly good → **da**

excellent, masterly → **gorchestfawr**

excellent, outstanding in skill or prowess, highly skilled, of the nature of a feat or exploit, masterly; noble, admirable, wonderful, magnificent, splendid; valiant, heroic; precious; hard, difficult → **gorchestol**

Lle mae'r gair Saesneg ar wahân ar y dechrau, fel uchod, mae fel arfer yn gyfystyr â'r Gymraeg. Rhestrir y rhain ar ddechrau'r canlyniadau. Ymhlith y canlyniadau, ceir cyfystyron fel 'gorchestol', 'penigamp', 'anfarwol', 'arbennig', 'ardderchog', 'bendigedig', 'dyrchafadwy', 'rhagorol', 'uchelradd', ac 'ysblennydd'.

Ydych chi'n cofio beth yw ystyr *breuoled* yng nghwydd 'Mis Mai a Mis Tachwedd' Dafydd ap Gwilym?

GPC CYM

1/1 breuoled (2013)

breuoled
[*breuol*+*edd*¹; ansicr yw union rym orgraffyddol -v- yn y bedwaredd engh.]

eg.
Breuder, bregusrwydd, gwendid, eiddilwch, marwoldeb, marwolaeth:
brittleness, fragility, weakness, frailty, mortality, death.

12g. *GLIF* 541, Am arglwyt diwyd, am diwet-ysgar, / Anysgafyn a 'r y *vreuolet*.
13g. *GDB* 566, G'ynn eu byt-ly, Vryneich, o'e *ureuoled!*
14g. *DG.net* 33^{31,5}, Annhebig i'r mis dig du / ... / A bair tristolaw a byrddydd / A llesgedd, ***breuoled* braw.**
15g. *DN* 103, Nid rhyfedd, *freuoled* fri, / Am a wnaeth yma noethni.

Rwy'n defnyddio *traethawd* o hyd — a oes gair arall?

GPC CYM

1/5 traethawd¹ (2001)

traethawd¹
[bnth. Llad. *tractātus*]

eg. b. ll. *traethodau*, (prin) *traethodion*.

Gwaith ysgrifenedig sy'n trafod pwnc yn fferuol ac yn drefnus, gwaith felly a gyflwynir am radd uwch, cyfansoddiad byr mewn rhyddiaith ar bwnc penodol, ysgrif, traethodyn, papur, llyfryn, astudiaeth; mynegiant, datganiad, adroddiad, araith; (datganiad) cerdd:
treatise, essay, (research) thesis, dissertation, tract(ate), paper, booklet, study;

Cynigir sawl posibilrwydd yn y diffiniad Cymraeg, gan gynnwys 'gwaith ysgrifenedig', 'cyfansoddiad', 'astudiaeth', 'papur', 'dadansoddiad', ac 'adroddiad'.

Beth am *bral* (ll. *brale*) yn *Martha, Jac a Shanco*?

1/1 bral (2013)

bral
[cf. *bril*]

eg. (bach. g. *brelyn*) ll. *bralau*, ?a hefyd gyda grym ansoddeiriol.

Rhacsyn, cerpyn, hen ddilledyn, dilledyn treuliedig; person carpiog, ragamwffin; person penchwiban; penwendid:
rag, old or worn clothing; ragged person, ragamuffin; hare-brained person; giddiness.

17-18g. *LIG* 566 60, pob llenkin *brelyn* / yn brwilio / i / bibell / heb obeth yw fendio / pob siack / yn hel Tobacko / ai wag fwg / ai wenwyn fo.
1793 *P, Bral*, s. m.—pl. t. au ... Hair brains, or giddiness. Rhyw *fral* o zyn, a hair-brained sort of a man.
1798 *WR*, *bral* d.g. *Rag*.
id., *brelyn* d.g. *Ragamuffin*.
18-19g. (1824) *D. Davis*: *Telyn Dewi* 117, Ac wrth fystlys y Cardottyn / Hagra 'i wisg a gwaela 'i wedd; / 'Dall'swn odde' cwrdd ai' *fralau*, / Na'i groen bawlyd tenau glās.
1858 *EWD* ll., *brelyn*, *bral* d.g. *Tatter*.
1934 *Sp, Bral* ... *Brelyn* o ddyd, ragged fellow.
2004 *C. Lewis*: *MJS* 103-4, Roedd ... *brale* o wla'n fel poer ar hyd y weiren bigog.
Ar lafar, "Odd e'n 'i *frale* i gyd" (canolbarth Cered.); 'Gwisga dy *frale* a bant à thi' (godre Cered.); '*Brale*' 'Tatters, rags', *Cymru* xxxiii. 39 (Cered. a sir Benf.); '*Brale*', '*brelin*' a ragged garment ... a worthless fellow', *TGG* (1907-8) 61 (de-orllewin sir Gaerf.).

-n- neu -nn-?

anedd

Oeddech chi'n golygu:

anedd
aned
anedd
annedd

Os teipiwch air nad yw yn y Geiriadur, awgrymir geiriau tebyg

Beth yw cened y gair *clust*?

1/72 clust (1954)

clust
[H. Wydd. *cluas*: < Clt. **kloustā*, cf. H. Norseg *hlust* 'ear' o'r gwr. **kleu-* 'clywed']

eb.g. ll. *clustiau*.
enw. y rhan allanol a u a geir un ar bob ochr i'r ynnwyr y clyw, y gallu i ndawiad, ewyllys neu

Os tapiwch fyrfodd yn yr ap (neu hofran drosto gyda'r 'cursor' yn GPC Ar Lein), bydd esboniad ohono'n ymddangos.